

2014 Rhif 3167 (Cy. 322)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A494
(Pont Afon Dyfrdwy, Queensferry,
Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 50
mya Dros Dro) 2014**

Gwnaed 25 Tachwedd 2014

Yn dod i rym 1 Rhagfyr 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494) ("y gefnffordd") wedi'u bodloni y dylid cyfyngu traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd perygl tebygol i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Pont Afon Dyfrdwy, Queensferry, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gerbyttffordd tua'r gogledd y gefnffordd yn Queensferry yn Sir y Fflint sy'n ymestyn o bwynt 325 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyfnewidfa Queensferry hyd at bwynt 1,170 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y cyfryw Gyfnewidfa.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb yrru na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr yn y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn Hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y

25 Tachwedd 2014

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.